

Pnawn da

Pleser gennyf eich croesawu ar ran Cymdeithas y Cyfreithwyr i'r Ddarlith Flynyddol.

Mae hi'n ffraind i mi gael cadeirio'r sesiwn yma eleni - gan fe'm magwyd yn y dref a derbyn f' addysg yn Ysgol Dewi Sant a Ysgol Ramadeg y Bechgyn. Braf iawn yw medru ymfalchïo yn y croeso arbennig a'r afiaith mae'r Wyl Genedlaethol wedi ysgogi yn Sir Gâr. Roeddwn i yma yn Eisteddfod 2000 (dwy fil) ac o grwydro'r maes heddiw mae hi'n rhyfeddod sut mae'r Wyl wedi esblygu i gynnig rhywbeth at ddant pawb . Tipyn o her ond mae'r brwdfrydedd a'r dyrfa luosog yn profi fod yr arlwy yn ddeniadol/apelio.

Mae Darlith Cymdeithas y Cyfreithwyr wedi hen ennill ei phlwy' ar bnawn lau yr Eisteddfod a da gweld cynulleidfa deilwng yma - gwynebau cyfarwydd a newydd. Pob yr un ohonom yn awyddus i glywed yr hyn sy' gan ein darlithwraig/siaradwraig wadd ddweud.

Elisabeth Jones yw Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae ei theulu yn hanu o gyffiniau Castell Newydd Emlyn ond fe'i magwyd yn Aberpennar ar aelwyd uniaith Saesneg. Astudiodd Ffrangeg ac Almaeneg yn Rhydychen cyn troi at y gyfraith. Threuliodd ugain mlynedd yn gweithio yn y Ddinas ag yn Ffrainc am y Cyngor Ewropeaidd. Fe ddychwelodd i Gymru adeg Datganoli lle cyntaf gyda Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru ag ers 2012 (deuddeg ar hugain) yn eu swydd bresennol.

Ei maen trafod yw: Beth yw'r ots gennym ni am eglurder?:  
Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad nawr ac yn y dyfodol.

Rhowch groeso iddi.....

## **Cloi**

Diolch yn fawr iawn Elisabeth am araith rymus ac amserol. Rydych wedi rhoi digon i ni gnoi cil drosto ac ysgogi sawl dadl a thrafodaeth dros y misoedd nesaf.

Rwy'n sicr fod pob yr un ohonom yma hefyd yn adleisio eich dymuniad o greu iaith newydd ar gyfer y gyfraith yng Nghymru - un fydd yn helpu ein dinasyddion i ddeall eu hawliau a'r cyfreithiau sy' wedi eu llunio er mwyn creu cymdeithas deilwng iddyn nhw.

Ac nawr mae gwahoddiad a chroeso i chi gyd ddod am baned a chlec ym Mhabell Pl@iad.